**Atodiad 2**

## Diweddariad am Gontract Cynnal a Chadw Tiroedd Tai

Crynodeb o brosiectau buddsoddi i gefnogi'r gwelliant mewn gwasanaethau cynnal a chadw tiroedd ar gyfer darparu cymdogaethau o ansawdd gwell:

### Ardaloedd Chwarae

Mae dros £500k wedi cael ei ddyrannu i fuddsoddi mewn gwelliannau sylweddol i leoedd chwarae ar ystadau'r cyngor. Mae'r mannau chwarae canlynol wedi'u cynnwys yng ngham cyntaf prosiectau sydd naill ai wedi'u cwblhau neu sydd bron â'u cwblhau ar hyn o bryd:

- Pen y Graig, Dinbych
- Bryn Stanley, Dinbych
- Cae Howell, Dinbych
- Heol Afon, Llanelwy
- Parc Bruton, y Rhyl
- South Avenue, Prestatyn

Mae cam pellach ar gyfer gwella ardaloedd chwarae wedi'i gynllunio ar gyfer 2016/17, sy'n cynnwys safleoedd yng Nghlawdd Poncen a Bodelwyddan.

### Gwelliannau Amgylcheddol

Mae dros £500k wedi cael ei neilltuo i ddarparu gwelliannau sylweddol i ymddangosiad cymdogaethau. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o brosiectau y mae rhai yn waith sylweddol i drawsnewid ardaloedd, tra bod eraill yn brosiectau cymharol lai sy'n gwneud gwahaniaeth pwysig i drigolion.

Mae £40k wedi cael ei ddyrannu i brosiectau sydd ar gael i drigolion wneud cais amdanynt drwy gronfa Eich Cymdogaeth Eich Lle.

Mae rhai enghreifftiau o'r prosiectau cyfredol yn cynnwys:

### Parc Bruton, y Rhyl.

Mae gwaith i wella golwg y fynedfa i'r stad wedi cael ei gynnal, gan gynnwys plannu llwyni ychwanegol ac ail-leoli planhigion. Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella'r ardal o amgylch y pwll i gysylltu â gwaith y Gwasanaethau Cefn Gwlad i wella'r daith gerdded drwy'r coetir.

### Llanelwy

Yng nghanol cyfnod cynllunio prosiect mawr ar hyn o bryd i wella'r strydwedd i greu gwell cyfleusterau parcio, gwell llif traffig, gwell goleuadau stryd ac ymddangosiad y dirwedd.

### Cynlluniau parcio

Cynlluniau gwella parcio oddi ar y stryd a ffiniau blaen tŷ yn yr ardaloedd canlynol:

- Maes Clwyd, Llandyrnog

- Maes Hafal, Gellifor
- Maes yr Efail Henllan

Mae cynlluniau parcio ychwanegol wedi’u cynllunio ar gyfer Bryn Eglwys, Bodfari, Tan Yr Eglwys, Rhuddlan

**Rhai enghreifftiau o Brosiectau Eich Cymdogaeth Eich Lle:**

**War Memorial Court, Y Rhyl**

Prosiect bach a gynhelir gan breswylwyr i wella'r ardal storio biniau, gan gynnwys cynllun to sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd ac i wella gwaith cynnal a chadw’r pwll.

**Rhydwen Drive, y Rhyl**

Gwelliannau i fan agored y ganolfan gymunedol gan gynnwys darparu arwyneb lle chwarae diogel.

**Llandyrnog**

Prosiect i ddarparu rhandiroedd bach at ddefnydd y gymuned.

**Ffordd Las, y Rhyl**

Gwelliannau i'r man cymunedol a gerddi i'r bloc o fflatiau.

**Maes Pengwern, Llangollen**

Prosiect gyda phreswylwyr i greu coridor gwyrdd drwy'r stad